Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

YMDDIRIEDOLAETH BRIFYSGOL GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU

# ADRODDIAD BLYNYDDOL SAFONAU'R GYMRAEG 2023-2024

## Cynnwys


Rhagair ........ 3

1. Cyflwyniad ........ 4

2. Amdanom ni ........ 4

3. Cefndir Safonau’r Gymraeg ........ 5

4. Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27 ........ 5

5. Atebolrwydd a Chymorth ........ 6

6. Cydymffurfio â’r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 – 77) ........ 8

7. Cydymffurfedd â’r Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 – 77) ........ 18

8. Cydymffurfedd â'r Safonau Gweithredol (Safonau 97- 114) ........ 19

9. Cwynion (Safon 115) ........ 27

10. Blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025 ........ 28

## Rhagair

**Croeso!**
**Fel Cadeirydd a Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, mae'n bleser gennym gyflwyno ein pumed adroddiad ar weithredu Safonau'r Gymraeg.**

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, ynghyd â sefydliadau cyhoeddus eraill, i gydymffurfio â'r Safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac yn rhoi cyfle i atgyfnerthu'r gofynion a gwella ansawdd ac argaeledd gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r Gymraeg yn ymddangos eto yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2024-27, gan ei fod bellach yn yr ail flwyddyn o gynllun tair blynedd. Y bwriad ar gyfer 2024/25 yw adeiladu amgylchedd lle gall y Gymraeg ffynnu. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar newid diwylliannol i ysgogi cydymffurfedd â safonau.

Fe wnaethom wella ein cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg a'n darpariaeth o Gynnig Rhagweithiol drwy ganoli ein gwasanaeth cyfieithu yn 2023 gyda recriwtio Cyfieithydd Cymraeg. Mae hyn wedi cynyddu ein gallu i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'n defnyddwyr gwasanaeth ac i'n staff.

Roedd ein cyfarfod blynyddol gyda Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn Nhŷ Elwy ym mis Chwefror 2024 yn gadarnhaol, a gofynnwyd i'r Ymddiriedolaeth rannu arfer da ar ateb galwadau yn Gymraeg yn y gwasanaeth 111, ac ar ein gwaith ar recriwtio dwyieithog.

Mae cynnydd wedi'i wneud wrth ddatblygu Fframwaith Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, gan gynnwys Polisi Iaith Gymraeg cyntaf yr Ymddiriedolaeth, gyda gweledigaeth i ddarparu gwasanaethau a fydd yn bodloni anghenion siaradwyr Cymraeg trwy sicrhau eu bod yn gallu derbyn gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi ein cydymffufedd â'r Safonau ac fe'i cefnogir gan ddata ar gyfer y cyfnod adrodd 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024. Rydym yn cydnabod ein bod wedi gwneud cynnydd, ond mae gwelliannau pellach ar y gweill i wella darpariaeth ein gwasanaethau Cymraeg. Er mwyn cyflawni'r gwelliannau hyn, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Chomisiynydd y Gymraeg i sefydlu datrysiadau sy'n diwallu ein hanghenion gweithredol ac yn sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg.

Mae'r adroddiad hwn hefyd yn adlewyrchu effaith gadarnhaol gweithredu'r cynllun Mwy na geiriau a'r egwyddor "Cynnig Rhagweithiol", sy'n golygu darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg heb i'r defnyddiwr gwasanaeth orfod gofyn amdano.



**Colin Dennis**
Cadeirydd



**Jason Killens**
Prif Swyddog Gweithredol

## 1. Cyflwyniad

Dyma bumed Adroddiad Blynyddol gwaith Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru sy'n dangos sut mae Safonau'r Gymraeg wedi'u gweithredu.

Ar 30 Mai 2019, symudodd yr Ymddiriedolaeth o weithredu ei Chynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i weithredu Safonau'r Gymraeg fel rhan o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi parhau i ymateb yn gadarnhaol i Safonau'r Gymraeg gan ei bod yn rhoi cyfle i atgyfnerthu a gwella ansawdd ac argaeledd ei gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.

## 2. Amdanom ni

Mae'r Ymddiriedolaeth yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl ledled Cymru, gan ddarparu gofal clinigol o ansawdd uchel sy'n cael ei arwain gan gleifion lle bynnag a phryd bynnag y bo angen.

Mae'r gwasanaethau'n cynnwys y canlynol:

- Y gwasanaethau ambiwlans brys golau glas: gan gynnwys cymryd galwadau, ymgynghori clinigol o bell, gweld a thrin ac, os oes angen, cludo i ysbyty priodol neu gyfleuster trin priodol.

- Y Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS): gan gynnwys cymryd galwadau, cynllunio teithiau, comisiynu gwasanaethau, mynd â chleifion i apwyntiadau ysbyty ac oddi yno, a'u trosglwyddo rhwng ysbytai a chyfleusterau trin.
- Y gwasanaeth 111: gwefan a gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim, sy’n borth llinell gyntaf i daith claf o fewn y system iechyd a gofal, gan roi’r cyngor neu’r atgyfeiriad iawn i’r claf.
- Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn cefnogi gwirfoddolwyr: Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned, Cyd-ymatebwyr ac Ymatebwyr mewn Lifrai i ddarparu adnoddau ymateb ychwanegol ar gyfer galwadau brys a gwasanaeth ceir gwirfoddol i gynorthwyo â chludo cleifion i apwyntiadau wedi'u trefnu.

## 3. Cefndir Safonau’r Gymraeg

O dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae’n ofynnol i bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru gydymffurfio â dyletswyddau iaith, sy’n sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg. Mae’r dyletswyddau’n annog hybu’r Gymraeg, y defnydd o’r Gymraeg o fewn gweinyddiaeth fewnol ac yn ei gwneud yn ofynnol bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer hygyrchedd y Gymraeg i’r cyhoedd.

Mae adran 44 o fesur 2011 yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg ddyroddi hysbysiad cydymffurfio sy’n ei gwneud yn ofynnol i gorff gydymffurfio ag un neu ragor o safonau sy’n benodol gymwys iddo. Yna cyflwynwyd Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 7) 2018 i sefydliadau’r sector iechyd yng Nghymru.

## 4. Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau 2022-27

Ers lansio **Cynllun Gweithredu Mwy na Geiriau 2022-27** Llywodraeth Cymru yn 2022, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gyflawni'r camau hynny fel bod y 'cynnig rhagweithiol' yn rhan annatod o ansawdd gwasanaethau a chyflawni gwasanaethau ar draws yr Ymddiriedolaeth lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Mae’n gyfrifoldeb ar bawb sy’n darparu gwasanaethau gofal i bobl a’u teuluoedd ledled Cymru i ddarparu’r Cynnig Rhagweithiol. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol.

Ym mis Chwefror 2024 nododd Pwyllgor Pobl a Diwylliant yr Ymddiriedolaeth Adroddiad Blynyddol Mwy na geiriau 2022-23 Llywodraeth Cymru a chafodd sicrwydd yn erbyn cynnydd yr Ymddiriedolaeth o ran cyflawni ei hymrwymiadau i'r

cynllun a oedd yn cynnwys crynodeb o gynllun gwella ateb galwadau yn Gymraeg y gwasanaeth 111.

Yn ystod cyfnod adrodd yr adroddiad hwn mae ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2024-2028 wedi cael eu datblygu fel nodau trosfwaol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. O fewn yr Ymddiriedolaeth, rydym yn cydnabod y cysylltiadau rhwng ein gofynion iaith Gymraeg a'r rhai sy'n ymwneud â chydraddoldeb. Rydym wedi datblygu cynllun gweithredu a fydd yn eistedd o dan y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac wedi cynnwys nifer o gamau gweithredu yn ymwneud â'r Gymraeg sy'n gysylltiedig â'n hamcanion Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac sy'n ychwanegol at y cynllun gweithredu Mwy na geiriau.

## 5. Atebolrwydd a Chymorth

### 5.1 Arweinwyr a Hyrwyddwyr y Gymraeg

Ochr yn ochr â Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, Trish Mills, Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/Ysgrifennydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, yw'r arweinydd gweithredol dros y Gymraeg sydd wedi bod yn allweddol wrth hyrwyddo datblygiad Fframwaith Iaith Gymraeg newydd. Mae Trish hefyd wedi bod yn arwain y gwaith o agor sgyrsiau mewn cyfarfodydd a gohebiaeth gan ddefnyddio Cymraeg sylfaenol. Yn ogystal, mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth Gyfarwyddwr Anweithredol sef Bethan Evans sy'n gweithredu fel Hyrwyddwr Iaith Gymraeg y Bwrdd ac sydd wedi bod yn ymwneud â hyrwyddo'r Iaith Gymraeg o fewn yr Ymddiriedolaeth i'n staff ac yn allanol i'n defnyddwyr gwasanaeth trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth.



**Trish Mills**
Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol/ Ysgrifennydd y Bwrdd



**Bethan Evans**
Cyfarwyddwr Anweithredol

### 5.2 Grŵp Cynghori'r Gymraeg

Mae WAST wedi sefydlu Grŵp Cynghori'r Gymraeg sy'n bwydo i mewn i'r Grŵp Cynhwysiant, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth er mwyn cryfhau'r aliniad â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Grŵp Cynghori hwn yn darparu mecanwaith ar gyfer adolygu pob agwedd ar Safonau'r Gymraeg ac i sicrhau bod gwasanaeth boddhaol yn cael ei gynnal i bob claf ac aelod o'r cyhoedd sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.

### 5.3 Y Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Mae Pwyllgor Pobl a Diwylliant yr Ymddiriedolaeth yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o'i drefniadau arwain o ran y Gymraeg, ac yn monitro cynnydd ac yn ceisio sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg. Mae hefyd yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r newid diwylliannol sy'n cyd-fynd â'r cynnig rhagweithiol fel ffordd o gryfhau cydymffurfedd â Safonau.

### 5.4 Bwrdd yr Ymddiriedolaeth

Mae llwybr cymeradwyo Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth drwy Grŵp Cynghori'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth, y Tîm Arwain Gweithredol a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth adolygu a thrafod y cynnydd a wnaed wrth gydymffurfio â'r Safonau.

### 5.5 Trefn Gwyno

Derbynnir pryderon ynghylch cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog Gweithredol a Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg. Ymchwilir i bob cwyn a dderbynnir a darperir ymateb gydag unrhyw gamau unioni gofynnol. Rhoddir sylw i faterion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion o dan y Rheoliadau Gweithio i Wella.

Os oes gan aelod o'r cyhoedd bryder ynghylch profiad diweddar o ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg yr Ymddiriedolaeth, gallant hefyd gofrestru eu pryder drwy anfon neges e-bost at y tîm pryderon: Amb_PuttingThingsRight@wales.nhs.uk neu drwy lenwi ffurflen ar-lein: Ffurflen Cyflwyno Pryderon Ar-lein

# Y SAFONAU

Caiff cydymffurfedd â safonau'r Gymraeg ei chategoreiddio i'r meysydd cydymffurfio a ganlyn: Cyflenwi gwasanaeth, Llunio polisi, Gweithrediadau a Chadw cofnodion. Yn ystod 2024/25 rydym yn datblygu llinell sylfaen ar gyfer adrodd a chyflwyno gwelliannau yn ein gofynion cydymffurfio.

## 6. Cydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi Gwasanaethau (Safonau 1 – 77)

Mae'r set hon o safonau yn nodi sut y mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd fel y gall siaradwyr Cymraeg gael mynediad dirwystr at wasanaethau Cymraeg; er enghraifft, wrth anfon gohebiaeth, delio â galwadau ffôn, darparu gwasanaethau ar-lein neu wyneb yn wyneb.

### 6.1 Gohebiaeth (Safonau 1 – 7)

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi defnyddio dull cyson o ddefnyddio papur pennawd a llofnodion e-bost ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob aelod o staff ddefnyddio papur pennawd dwyieithog yr Ymddiriedolaeth. Rydym hefyd wedi annog yr holl staff i gynnwys neges ar lofnodion e-bost yn nodi bod yr unigolyn yn 'croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg'.

### 6.2 Galwadau Ffôn (Safonau 8 – 20)

Nid yw Safonau'r Gymraeg fel y'u gosodwyd ar yr Ymddiriedolaeth yn gosod unrhyw ofyniad cyfreithiol i ateb galwadau 999 yn Gymraeg. O dan Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) 2018, Paragraff 35: Nid yw safonau 8 i 10 a 13 i 16 yn gymwys i alwadau a wneir i'r rhif ffôn 999.

Mae galwyr i'r gwasanaeth 111 ac i Ofal Ambiwlans yn derbyn cyfarchiad dwyieithog wedi'i recordio. Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu cyswllt ffôn gyda defnyddiwr gwasanaeth am y tro cyntaf, gofynnir i'r defnyddiwr gwasanaeth a fyddai'n well ganddo dderbyn galwadau gan yr Ymddiriedolaeth yn y dyfodol yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Bydd y dewis iaith hwnnw yn cael ei nodi a'i barchu. Mae galwadau i 111 a Gofal Ambiwlans yn cynnig dewis iaith i alwyr.

Mae ateb galwadau Cymraeg ar gyfer 111 a Gofal Ambiwlans bellach yn cael eu hadrodd i'r Bwrdd yn yr Adroddiad Misol Ansawdd a Pherfformiad Integredig. Mae'r pwyntiau hyn yn cael eu trafod yn fanylach yn y paragraffau isod.

### 6.2.1 Adolygiad Gwasanaeth GIG 111 Cymru

**Cyfradd galw ac ateb galwadau Cymraeg Gwasanaeth GIG 111 Cymru 2023-2024**

| Galw am y Gymraeg | Cyfanswm y galwadau a atebwyd ar gyfer 111 | Galwadau Cymraeg a gynigiwyd | Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn Gymraeg | % y galwadau a atebwyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **01/04/23 – 31/03/24** | **843,464** | **17,792** | **8,099** | **45.5%** |
| **01/04/22 – 31/03/23** | **766,718** | **15,735** | **2,853** | **18.1%** |

* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli cyfnod adrodd 2022/23.

Yn ystod 2023-24 bu gwelliant yng nghanran y galwadau GIG 111 Cymru a atebwyd yn Gymraeg fel dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth ers y flwyddyn ddilynol. Roedd hyn yn dilyn lansio cynllun gwella ar ddiwedd 2022 i mewn i 2023. Arhosodd nifer y galwadau a oedd yn gofyn am y gwasanaeth hwn yn isel (llai nag 1% o alwadau 111) ond cydnabu tîm arwain y Gwasanaeth 111 bwysigrwydd y gwasanaeth yr oedd yn ei ddarparu. O ganlyniad, datblygwyd y cynllun gwella 2022 ymhellach ar draws ein gwasanaeth GIG 111 Cymru yn 2023 gan y tîm darparu gwasanaeth 111 i wella nifer y cleifion sy'n gallu derbyn gwasanaeth yn Gymraeg os mai dyna oedd eu dewis. Roedd y cynllun yn cynnwys y camau gweithredu canlynol:

- Cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg i edrych ar ffyrdd o gynyddu/gwella ein perfformiad galwadau Cymraeg a hyder ein staff i dderbyn galwadau yn Gymraeg trwy sesiynau magu hyder yn y Gymraeg.
- Neilltuo dau driniwr galwadau Cymraeg eu hiaith i set sgiliau Cymraeg ar ddydd Sadwrn a dydd Sul rhwng 8am ac 1pm.
- Nododd data a gasglwyd o'n hofferyn meddalwedd adrodd data ble cawsom y galw mwyaf am alwadau Cymraeg a helpodd i wella'r gyfradd ateb galwadau Cymraeg, gostwng y gyfradd gadael a lleihau nifer y galwadau sy'n cael eu tynnu o'r ciw a'u rhoi i drinwyr galwadau Saesneg.
- Pan oedd y galw ar y penwythnos yn isel, roedd staff ar setiau sgiliau deuol (Cymraeg a Saesneg) yn delio â galwadau Cymraeg a oedd yn gwella'r perfformiad ymhellach.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i addasu a gwella'r ffordd yr ymdrinnir â galwadau Cymraeg o fewn y broses negeseuon ffôn 111.
- Recriwtio trinwyr galwadau sy'n siarad Cymraeg.
- Sesiwn ymwybyddiaeth iaith ar gyfer dechreuwyr newydd yn ystod eu hyfforddiant sefydlu.

- Hyfforddiant fideo ar gyfer staff sefydledig sy'n derbyn galwadau ar ofal cwsmeriaid Cymraeg ac arfer gorau.
- Adolygiad perfformiad wythnosol gan y tîm gweithredol ar ddata perfformiad galwadau Cymraeg gyda chamau gweithredu a throsolwg dilynol y cytunwyd arnynt.
- Cylchrestru camau gweithredu i wneud y gorau o'r ddarpariaeth Gymraeg.

### 6.2.2 Gofal Ambiwlans (NEPTS yn flaenorol)

**Cyfradd galw ac ateb galwadau Cymraeg Gofal Ambiwlans 2023-2024**

| Galw am y Gymraeg | Cyfanswm y galwadau a atebwyd ar gyfer NEPTS | Galwadau Cymraeg a gynigiwyd | Cyfanswm y galwadau a atebwyd yn Gymraeg | % y galwadau a atebwyd yn Gymraeg |
|---|---|---|---|---|
| **01/04/23 – 31/03/24** | **232,442** | **3,951** | **3,923** | **89%** |
| **01/04/22 – 31/03/23** | **200,864** | **1,878** | **1,856** | **98.8%** |


* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli'r cyfnod adrodd 2022/23.

Croesewir pawb sy'n galw i'n Canolfan Alwadau Cludiant Di-frys gyda chyfarchiad dwyieithog, ac yna ein system Ymateb Llais Integredig sy'n caniatáu i alwyr ddewis eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg o'r pwynt hwn. Yn dibynnu ar eu dewis bydd pob neges yn cael ei chyflwyno yn eu dewis iaith.

Mae galwyr Cymraeg yn cael eu cyfeirio drwy'r system Ymateb Llais Integredig at ein derbynwyr galwadau Cymraeg. Os yw ein derbynwyr galwadau Cymraeg yn brysur gyda galwyr eraill, mae'r galwr yn cael ei ailgyfeirio i'r derbyniwr galwadau Cymraeg neu Saesneg nesaf sydd ar gael i osgoi amser aros diangen. Mae'n bwysig nid yn unig darparu profiad galwadau Cymraeg llawn ond hefyd sicrhau nad oes unrhyw oedi hir yn digwydd os yw pob un o'n derbynwyr galwadau Cymraeg yn delio â galwadau eraill.

Defnyddir ein Hasesiad o Anghenion Cleifion i wirio cymhwysedd pob claf am gludiant ambiwlans ac mae wedi'i gyfieithu'n llawn i'n derbynwyr galwadau Cymraeg i wella profiad y galwr.

## 6.3 Cyfarfodydd (Safonau 21 – 30)




Pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn trefnu cyfarfod ag aelod neu aelodau o'r cyhoedd, gofynnir i'r rhai sy'n mynychu a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. Lle mae unigolion yn mynegi awydd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod, bydd yr Ymddiriedolaeth yn parchu ac yn darparu ar gyfer y dewis hwnnw. Mae gan gyfarfodydd y Bwrdd aelodau sy'n siarad Cymraeg yn bresennol, ac mae holl gyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw trwy Zoom. Rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddarparu isdeitlau Cymraeg drwy Zoom ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd.

Anfonir gwahoddiadau cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth i'n partneriaid yn ddwyieithog. Mae holl agendâu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar gael yn Gymraeg. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2022-23 yr Ymddiriedolaeth yn ddwyieithog am y tro cyntaf yng nghyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2023.

## 6.4 Digwyddiadau Cyhoeddus (Safonau 31 – 32)

Mewn perthynas â gwasanaethau wyneb yn wyneb a gynigir yn ystod digwyddiad, bydd gwahoddiad neu hysbyseb y digwyddiad yn gofyn i bersonau ein hysbysu os ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Lle mae hyn yn digwydd, rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu yn y digwyddiad. Rydym yn ymdrechu i sicrhau bod pob gwahoddiad a hysbysiad i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

### Eisteddfod Boduan



Ar 11 Awst aeth ein Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg, Melfyn Hughes a Richard Lewis, Ymatebwr Cyntaf yn y Gymuned gwirfoddol o ardal Pwllheli i Eisteddfod Genedlaethol eleni ym Moduan, Gwynedd lle'r oedd gan WAST stondin arddangos fel rhan o babell arddangos BIPBC. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i ymgysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth a chafodd stondin WAST hefyd ymweliad arbennig gan Eluned

Morgan, Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd.

**Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned**




Fel rhan o fodel ymgysylltu parhaus y tîm Profiad y Claf a Chynnwys y Gymuned (PECI) mae WAST wedi mynychu digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd a chymuned amrywiol ledled Cymru. Mae'r tîm PECI yn darparu gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan WAST ynghyd ag adnoddau hygyrch sy'n benodol i oedran a demograffig. Mae'r holl ddeunydd a ddarperir yn ddwyieithog a darperir dolenni i bobl i roi eu hadborth yn eu dewis iaith.

## 6.5 Dogfennau a Ffurflenni (Safonau 36 - 38)

Ers dechrau mis Medi 2023, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bod â gwasanaeth cyfieithu mewnol pwrpasol, sydd ar gael i'r holl staff yn rhad ac am ddim trwy fewnflwch pwrpasol ac mae wedi bod yn ffactor allweddol i'w galluogi i gydymffurfio â'r safonau sy'n ymwneud â dogfennau a ffurflenni.

**Mae enghreifftiau o ffurflenni sydd ar gael yn Gymraeg yn cynnwys y canlynol:**

**Ffurflen adborth cleifion NEPTS**



Dweud eich dweud - Cludiant Ambiwlans

Yn Ambiwlans Cymru rydym yn ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarparwn yn barhaus. Helpwch ni i wella ein gwasanaeth i gleifion oncoleg trwy lenwi'r ffurflen isod.


Sut wnaethoch chi deithio heddiw?

- ☐ Gyrrwr Car Ambiwlans Gwirfoddol
- ☐ Tacsi
- ☐ Cerbyd Ambiwlans Cymru
- ☐ Dydw i ddim wedi teithio o'r blaen.
- ☐ Ambiwlans Preifat

Pa sgôr fyddech chi'n ei rhoi i'ch trafnidiaeth heddiw?

☆ ☆ ☆ ☆ ☆

**Arolwg gwefan GIG 111 Cymru**



GIG 111 Cymru
NHS 111 Wales

GIG Cymru NHS Wales | Ymddiriedolaeth B Gwasanaethau Am Welsh Ambulance University NHS Tru

Arolwg Profiad Gwefan GIG 111 Cymru

Iaith: Cymraeg

Mae'r profiad sydd gennych ar wefan GIG 111 Cymru yn bwysig i ni. Er mwyn ei i barhau i wella'r safle byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau'r arolwg hwn fe ddeall hyn yn well. Sylwer bod yr arolwg hwn yn ymwneud â gwefan GIG 111 Cy unig ac nid i unrhyw wasanaethau GIG arall.

Nid oes angen i ni wybod eich manylion personol ond rydym wedi gofyn rhai cw cyffredinol ar y diwedd am bwy ydych chi. Mae hyn er mwyn i ni wneud yn siŵr e gofyn i bob grŵp o bobl am eu profiad. Gweler ein hysbysiad preifatrwydd am ra wybodaeth.

Bydd unrhyw ymatebion yn cael eu cadw'n gyfrinachol a dim ond canlyniadau a dienw fydd yn cael eu rhannu neu eu datgelu.

Os hoffech drafod yr arolwg hwn neu ofyn unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r tîm Cleifion a Chyfranogiad Cymunedol ar 0300 123 9207 neu anfonwch e-bost at PECI.team@wales.nhs.uk

Mae'r Arolwg hwn yn cynnwys 20 Cwestiwn, a ni ddylai gymryd mwy na 6 munu gwblhau.


Parhewch

## 6.6 Deunydd cyhoeddusrwydd a Hysbysebu (Safonau 33 – 34)

Cynhyrchir unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu hysbysebu a gynhyrchir gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y cyhoedd yn ddwyieithog.

Cynhyrchwyd a hyrwyddwyd cyhoeddusrwydd dwyieithog trwy gyfryngau cymdeithasol i aelodau'r cyhoedd gwblhau arolwg ar-lein ar eu profiad o ffonio gwasanaeth 999 yr Ymddiriedolaeth.




### Ymgynghoriad ac Ymgysylltu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol




Yn ystod 2023-2024, cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymgynghoriad ac ymgysylltu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd, defnyddwyr gwasanaeth, staff a rhanddeiliaid i gwblhau arolwg dwyieithog i helpu i lunio set newydd o Amcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer yr Ymddiriedolaeth. Trafodwyd y cynigion ar gyfer y cynllun newydd hefyd yng Ngrŵp Cynghori'r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth ym mis Medi.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer o sylwadau ynglŷn â'r Gymraeg. Teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig i'n harweinyddiaeth ddangos ein hymrwymiad i'r Gymraeg a pharhau i sicrhau bod y sefydliad yn gwbl ddwyieithog. Nodwyd codi ymwybyddiaeth o anghenion iaith Gymraeg defnyddwyr gwasanaeth a staff a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ymgynghoriad. Ar gyfer 2024/25 bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy Gam Gweithredu Blwyddyn 1 ein Cynllun Tymor Canolig Integredig i gyflwyno a gweithredu Polisi Iaith Gymraeg newydd ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg.

### 6.7 Gwefannau a Gwasanaethau Ar-lein (Safonau 39 – 43)

Mae gennym ddwy wefan, sef gwefan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, a gwefan 111 Cymru, yr ydym yn ei gweithredu fel darparwr a gomisiynwyd o 111 ledled Cymru. Mae rhai o'r heriau wedi'u nodi isod.

#### 6.7.1 Gwefan GIG 111 Cymru

Mae gwefan GIG 111 Cymru yn gweithredu ei chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Twitter Cymraeg a Saesneg ei hun, sef @GIG111Cymru gyda **122** (**105)** o ddilynwyr a @NHS111Wales gyda **7,316** (**7,282)** o ddilynwyr.

**Gwirwyr Symptomau Gwefan 111**

Wrth wrando ar adborth gan ddefnyddwyr y wefan, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth i ehangu'r ystod o wirwyr symptomau sydd ar gael yn Gymraeg drwy'r wefan, gan alluogi defnyddwyr i wirio eu symptomau a derbyn cyngor ar-lein ynglŷn â beth i'w wneud nesaf. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, **ni** ddatblygwyd unrhyw wirwyr symptomau newydd nac a wnaethpwyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Mae pob un o'r 65 o wirwyr symptomau cyfredol sydd ar gael ar wefan 111 ar gael yn Gymraeg.

**Datblygu gwefan GIG 111 Cymru**

Nid oes unrhyw gyllid hirdymor penodedig yn parhau i fod yn gysylltiedig â gwefan GIG 111 Cymru, ei phensaernïaeth, cynhyrchu cynnwys, rheolaeth, na sicrwydd clinigol (gan gynnwys y gwirwyr symptomau ar-lein). O ystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ar ddigidol yn gyntaf, mae cyflwyno'r ap GIG Cymru, a'r effaith y gallai gwefan addas i'r diben ei chael yn y dyfodol yn parhau i gynrychioli risg a her sylweddol.

Er nad yw'r sefyllfa hon wedi newid ers yr adroddiad diwethaf, mae WAST wedi comisiynu gwaith darganfod digidol pwrpasol. Bydd y gwaith hwn yn llywio'r gwaith o greu achos busnes ar gyfer Llywodraeth Cymru ac yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer dyfodol mynediad digidol ac integreiddio ar gyfer GIG 111 ar-lein, a fydd yn cynnwys gofynion y Gymraeg ar gyfer unrhyw gynnwys sy'n rhan ohono.

Mae grŵp o arbenigwyr wedi'u dwyn ynghyd i gynnal ymchwil i'r rhwystrau presennol i lwyddiant digidol, yr ecosystem ddigidol Gymreig, y weledigaeth ar gyfer

llwyddiant, yr egwyddorion ar gyfer cynnydd, nodi bwriad a bwlch, anghenion defnyddwyr, dymuniadau, a theithiau, syniad gwasanaeth ac yn y pen draw mapio a dylunio.

Mae'r gwaith hwn, sy'n ymdrin â strategaeth a chyflawniad ymchwil, yn barod i ddarparu mewnwelediadau ac argymhellion gwerthfawr ar gyfer dyfodol gwefan GIG 111 Cymru a galluogi WAST i greu achos busnes dros newid.

### 6.8 Cyfryngau Cymdeithasol (Safonau 45 – 46)

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cymraeg a Saesneg ar wahân ar gyfer Facebook a Twitter. Mae pob postiad Saesneg yn cael ei hailadrodd yn Gymraeg.






**Isod ceir dadansoddiad o'r ymgysylltu ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr Ymddiriedolaeth yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024**

Ers yr adroddiad blynyddol blaenorol, mae X a Facebook wedi newid eu dadansoddeg a'u hystadegau. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth bostio'n ddwyieithog ar Instagram hefyd.

Sylwer, mae'r rhif isod yn gynrychiolaeth fras o'r ystadegau oherwydd problemau cyrchu dadansoddeg ers newid Twitter i X.

| Twitter | @Ambiwlans_Cymru | | @WelshAmbulance | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 |
| **Cyfanswm y dilynwyr** | 423 | | 24,196 | |
| **Cyfanswm yr argraffiadau** | 34,284 | 113,351 | 1,749,700 | 2,440,000 |
| **Nifer o Retweets** (heb sylwadau) | 202 | 625 | 2,735 | 4,693 |
| **Hoffiadau** | 277 | 485 | 8,232 | 12,400 |
| **Y nifer sy'n agor dolenni** | 41 | 38 | 6,045 | 7,300 |

* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli'r cyfnod adrodd 2022/23.

Mae cyfanswm y nifer o Tweets yn amrywio rhwng y ddau gyfrif am y rhesymau canlynol:

- Mae 'Tweets' yn cynnwys postiadau wedi'u dyfynnu sy'n cael eu cyhoeddi'n amlach ar ein cyfrif Saesneg oherwydd nad yw asiantaethau eraill, megis gwasanaethau ambiwlans eraill y DU, yn cyhoeddi cynnwys Cymraeg.

| Facebook | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | | Welsh Ambulance Services NHS Trust | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2022/23 | 2023/24 | 2022/23 |
| **Cyfanswm y dilynwyr** | 261 | | 37,041 | |
| **Dilynwyr newydd** | 22 | 27 | 1,630 | 1,959 |
| **Hoffiadau newydd ar y dudalen** | 8 | 10 | 531 | 1,029 |
| *** Cyfanswm yr ymweliadau â thudalennau** | 1,099 | | 124,235 | |
| *** Cyfanswm cyrhaeddiad y dudalen a'r proffil** | 37,750 | | 3,172,769 | |
| *** Cyfanswm yr argraffiadau post** | 38,516 | | 3,690,160 | |
| *** Ymgysylltiadau â'r dudalen** (cyfanswm yr ymatebion, sylwadau a rhannu postiadau) | 1,621 | | 412,950 | |

* Ychwanegiadau newydd felly dim data cymaradwy blaenorol ar gael.

* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli'r cyfnod adrodd 2022/23.

## 6.9 Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 47 - 49)

Cynhyrchir pob arwydd newydd neu amnewidiol yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg wedi'i gosod fel ei bod yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf. Yn ystod y cyfnod adrodd cynhyrchwyd arwyddion allanol a mewnol newydd ar gyfer gweithdy ambiwlans newydd yr Ymddiriedolaeth ym Merthyr Tudful fel y dangosir isod.






## 6.10 Gwasanaethau’r Dderbynfa (Safonau 50 - 53)

Lle mae gennym wasanaeth derbynfa, mae'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' ar gael i staff sy'n gweithio mewn derbynfeydd er mwyn datblygu eu sgiliau Cymraeg a bod yn gallu cyfarch ymwelwyr yn ddwyieithog. Mae cymorth iaith Gymraeg hefyd ar gael gan Reolwr Gwasanaethau’r Gymraeg yr Ymddiriedolaeth.

## 6.11 Dyfarnu Contractau (Safonau 57 - 59)

Cyhoeddir gwahoddiadau i dendro yn ddwyieithog os yw pwnc y gwahoddiad i dendro yn awgrymu y dylid ei gynhyrchu yn Gymraeg, neu os yw’r gynulleidfa a ragwelir, a’u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu’r testun yn Gymraeg. Gellir cyflwyno tendrau yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.

Ni chyhoeddwyd unrhyw geisiadau am dendrau neu gontractau yn Gymraeg ac ni dderbyniwyd yr un yn Gymraeg yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

## 6.12 Hunaniaeth Gorfforaethol (Safon 62)

Yn ystod y cyfnod adrodd bu ein Rheolwr Gwasanaethau’r Gymraeg yn gweithio ochr yn ochr â'n Tîm Cyfathrebu i ddatblygu fersiwn dwyieithog o Fathodyn y Goron yr Ymddiriedolaeth. Datblygwyd copi o fathodyn y Goron i'w adolygu ac i'w gymeradwyo'n derfynol. Bydd cyflwyno bathodyn y goron dwyieithog newydd yr Ymddiriedolaeth yn hyrwyddo ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i'r Gymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth a'n staff. Derbyniwyd caniatâd gan Swyddfa'r Cabinet i symud i Fathodyn y Goron dwyieithog.

Ar 1 Ebrill 2024, dyfarnwyd statws Ymddiriedolaeth Brifysgol i'r Ymddiriedolaeth ac o ganlyniad mae ein logo GIG Cymru hefyd wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu statws Ymddiriedolaeth Brifysgol, sydd wedi'i ddyfarnu gan Lywodraeth Cymru i gydnabod ein hymrwymiad i ysgogi ymchwil ac arloesi a datblygu'r gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.

Mae Bathodyn y Goron a logo GIG Cymru newydd ar gael i staff eu lawrlwytho o dudalen brandio corfforaethol bwrpasol. Yn ogystal, mae canllawiau ar y brand corfforaethol wedi'u creu i hysbysu staff ar sut i gymhwyso'r rhain yn gywir.

Dim ond pan gânt eu disodli'n naturiol y mae angen i asedau corfforol sy'n arddangos yr hen fersiwn o'r logo a bathodyn y goron megis cerbydau, gwisgoedd ac arwyddion ystâd, gario'r logo newydd a Bathodyn y Goron.

## 7. Cydymffurfedd â'r Safonau Llunio Polisi (Safonau 69 – 77)

Mae pob polisi newydd a diwygiedig a weithredir gan yr Ymddiriedolaeth yn destun Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Mae'r Gymraeg yn faes cydraddoldeb safonol a gofynnir i staff sy'n llunio polisïau newydd neu ddiwygiedig ystyried yr effeithiau cadarnhaol a/neu negyddol a allai ddeillio o'r polisi hwnnw ar y Gymraeg. Mae cefnogaeth gan y Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg ar gael i unrhyw gydweithiwr sy'n cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb ac mae'n weithdrefn safonol ar gyfer pob polisi newydd a diwygiedig.

Mae proses bolisi'r Ymddiriedolaeth yn goruchwylio'r prosesau llywodraethu wrth adolygu polisïau newydd neu ddiwygiedig, a chaiff y pwyllgor bwrdd perthnasol ei sicrhau bod yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gwblhau wrth gymeradwyo'r polisïau a neilltuwyd iddynt.

Yn ystod y cyfnod adrodd cymeradwywyd **11** o bolisïau (gan gynnwys polisïau newydd a diwygiedig), ac aeth pob un ohonynt drwy broses Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

## 8. Cydymffurfedd â'r Safonau Gweithredol (Safonau 79 – 114)

Mae'r set o Safonau Gweithredol yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac yn rhoi'r hawl i weithwyr dderbyn gwasanaethau Adnoddau Dynol yn eu dewis iaith.

### 8.1 Polisi ar y defnydd mewnol o'r Gymraeg (Safon 79)

Fel rhan o Fframwaith Iaith Gymraeg newydd yr Ymddiriedolaeth mae Polisi Iaith Gymraeg newydd wedi'i ddatblygu i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a chydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae hyn ar y trywydd iawn i gael ei gymeradwyo yn 2024 ac yna caiff ei hyrwyddo ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Rhan o'r gwaith hwn i hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol fu cyflwyno **Gwobr y Gymraeg** fel un o'r categorïau ar gyfer Gwobrau Staff blynyddol yr Ymddiriedolaeth. Mae'r wobr i gydnabod staff sydd wedi helpu i hyrwyddo'r Gymraeg a gwella darpariaeth ddwyieithog mewn gofal iechyd.

Fel rhan o wobrau staff eleni, derbyniwyd saith enwebiad cryf. Jason Jones, Rheolwr Cyflenwi Cyfalaf oedd enillydd Gwobr y Gymraeg am ei ymroddiad i ddysgu Cymraeg a dod yn siaradwr Cymraeg rhugl. Cafodd Nia Barton, Clinigydd Canolfan Gyswllt Clinigol, ganmoliaeth uchel am ei gwaith yn delio â chleifion yn Gymraeg.




Roedd y Gymraeg yn amlwg yn **Sioeau Teithiol y Prif Swyddog Gweithredol** a gynhaliwyd ym mis Ebrill a mis Tachwedd 2023. Roedd hwn yn gyfle i'r Prif Swyddog Gweithredol Jason Killens ac aelodau eraill o'r Bwrdd ymgysylltu â'n pobl ledled Cymru i fyfyrio ar ein profiadau a'r heriau sy'n ein hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Cafodd y faner naid a thaflenni canlynol eu harddangos yn y digwyddiadau:







Mae **cylchlythyr** misol mewnol **WAST yn Cysylltu** bellach yn cael ei gyhoeddi ar fewnrwyd WAST yn ddwyieithog er mwyn i bob defnyddiwr allu ymgysylltu â'r postiad.


WAST yn Cysylltu

MAI 2024

I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.

Neges gan y Prif Weithredwr

Helo, a chroeso i rifyn mis Mehefin o WAST yn Cysylltu. Roedd mis Mai yn fis pwysig wrth i ni lansio technoleg galwadau ac asesu clinigol arloesol yn ein canolfannau cyswllt GIG 111 Cymru. Gyda dros filiwn o alwadau i 111 bob blwyddyn, mae mor bwysig ein bod yn defnyddio technoleg sy'n rhoi profiad da i gleifion, ac mae'r system newydd hon yn galluogi cynghorwyr iechyd 111 i flaenoriaethu a chyfeirio cleifion yn well at y llwybr gofal mwyaf priodol. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i gydweithwyr ar draws y sefydliad, mewn byrddau iechyd a thu hwnt a weithiodd ar y cyd i roi'r system newydd ar waith, sydd wedi helpu i'n harwain ymlaen ar ein taith i fod yn 'borth' i'r gofal neu'r cyngor cywir yn y lle iawn, bob tro, ac mae'n galluogi ein model ymateb clinigol i esblygu ymhellach er mwyn i ni allu diwallu anghenion penodol claf. Ni fydd llawer o bobl yn gwybod ein bod yn cael ein cefnogi gan elusen wych, sy'n codi arian i ariannu mentrau sy'n hybu iechyd, lles a diogelwch ein pobl, cleifion a chymunedau. Disgwyliwch weld mwy am elusen Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn y misoedd nesaf wrth i'n Pennaeth Elusen cyntaf ddechrau yn ei swydd a chychwyn ar ymarfer cyffrous i godi proffil yr elusen. Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn dathlu staff a gwirfoddolwyr sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hir yn ein Gwobrau Gwasanaeth Hir blynyddol. Bydd cydweithwyr sydd

Jason Killens
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## 8.2 Dogfennau Cyflogaeth (Safonau 80 – 81)

Os gofynnir i ni, byddwn yn darparu dogfennau sy'n ymwneud â chyflogaeth i'w darparu yn Gymraeg hy, dogfennau sy'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddi; dogfennau sy'n amlinellu amcanion perfformiad; dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi cynllun gyrfa; ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol; ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi absenoldebau o'r gwaith a ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gwaith hyblyg. Yn ystod y cyfnod adrodd nid ydym wedi derbyn unrhyw geisiadau o'r fath gan staff.

Rydym wedi sicrhau bod y dogfennau canlynol wedi'u cyfieithu pe bai unrhyw aelod o staff yn dymuno eu derbyn trwy gyfrwng y Gymraeg: llythyrau newid oriau, estyniadau secondiad a chytundeb cyflogaeth. Lle mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) yn cyhoeddi contractau cyflogaeth (drwy'r broses recriwtio o fewn TRAC), caiff y rhain eu hanfon yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## 8.3 Recriwtio a Phenodi (Safonau 106 – 109)

Defnyddir siartiau llif canllaw/proses i gynorthwyo rheolwyr cyn i unrhyw swydd gael ei hysbysebu. Mae'r broses yn darparu manylion gwasanaethau cyfieithu yn ogystal â

rhywfaint o eiriad hysbyseb safonol a swydd ddisgrifiad i gynorthwyo rheolwyr. Mae ein gwasanaeth cyfieithu mewnol wedi'i sefydlu i gefnogi anghenion cyfieithu'r Ymddiriedolaeth.

Mae'r ffurflen asesu a gyflwynwyd gennym i bob rheolwr ei llenwi er mwyn helpu i asesu'r gofynion o ran y Gymraeg ar gyfer swyddi yn parhau i gael ei defnyddio. Mae hyn yn rhan o nifer o bwyntiau gwirio eraill, cyn rhyddhau post ar gyfer hysbyseb.

## 8.4 Asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ar draws y gweithlu (Safonau 96 a 116)


O gyfanswm o **4,317** aelod o staff mae **3,949 (91.48%)** **3,906 (89.28%)** o weithlu'r Ymddiriedolaeth wedi hunanasesu a chofnodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig (ESR). Isod, sgiliau gwrando/siarad Cymraeg wedi'u cofnodi ar ESR fesul cyfarwyddiaeth:

| Cyfarwyddiaeth | Angenrheidiol | Wedi'i gyflawni | % Cydymffurfedd |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu Corfforaethol | 8 | 8 | 100% |
| Cyfarwyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol | 18 | 13 | 72.22% |
| Cyfarwyddiaeth Digidol | 58 | 55 | 94.83% |
| Cyfarwyddiaeth Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol | 108 | 100 | 92.59% |
| Cyfarwyddiaeth Meddygol a Chlinigol | 57 | 56 | 98.25% |
| Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau | 3826 | 3481 | 90.98% |
| Cyfarwyddiaeth Partneriaethau ac Ymgysylltu | 12 | 12 | 100.00% |
| Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf | 119 | 118 | 99.16% |
| Cyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | 20 | 17 | 85.00% |
| Cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant | 91 | 89 | 97.80% |

## 8.5 Sgiliau Iaith Gymraeg y Proffil Staff – Gwrando/Siarad

| 0 - Dim Sgiliau | 1 - Mynediad | 2 - Sylfaen | 3 - Canolradd | 4 - Uwch | 5 - Hyfedredd | Anhysbys | Cyfanswm terfynol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2233** | **745** | **271** | **156** | **159** | **386** | **367** | **4317** |

Lefelau Sgiliau Iaith




Er mwyn lleihau nifer y staff sydd wedi nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar ESR fel 'dim sgiliau', cynigir y bydd disgwyl i staff sydd wedi cwblhau eu cwrs Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg gorfodol ddiweddaru eu lefel sgiliau iaith Gymraeg ar ESR o 'dim sgiliau' i 'Lefel 1 - Mynediad'.

## Hyfedredd yn y Gymraeg fesul Cyfarwyddiaeth

| Cyfarwyddiaeth | Canolradd | Uwch | Hyfedredd |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu Corfforaethol | 0 | 0 | 2 |
| Cyfarwyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol | 1 | 1 | 0 |
| Cyfarwyddiaeth Digidol | 1 | 1 | 6 |
| Cyfarwyddiaeth Cyllid ac Adnoddau Corfforaethol | 1 | 7 | 11 |
| Cyfarwyddiaeth Meddygol a Chlinigol | 0 | 1 | 2 |
| Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau | 143 | 141 | 345 |
| Cyfarwyddiaeth Partneriaethau ac Ymgysylltu | 0 | 2 | 0 |
| Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf | 7 | 6 | 11 |
| Cyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad | 0 | 0 | 2 |
| Cyfarwyddiaeth Pobl a Diwylliant | 3 | 0 | 7 |
| **Cyfanswm terfynol** | **156** | **159** | **386** |

Mae 16% o'n gweithlu yn rhugl yn y Gymraeg. Mae hyn yn cyfateb i 701 o'r rhai sydd wedi cofrestru eu sgiliau Cymraeg.

Er mwyn cynyddu sgiliau Cymraeg ein gweithlu yn 2024/25 byddwn yn hyrwyddo'r cwrs Cymraeg sy'n benodol ar gyfer dechreuwyr i'r GIG sydd ar gael i'n staff drwy'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynghyd â'n cwrs ESR Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg gorfodol.

### 8.6 Swyddi Newydd a Gwag (Safon 117)

Mae'r tabl isod yn cadarnhau'r swyddi a hysbysebwyd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024:

Cyfanswm y swyddi a hysbysebwyd: **296** **(405).** Oherwydd bod gan wasanaeth cyfieithu'r Ymddiriedolaeth fynediad at feddalwedd cof cyfieithu PCGC, gwnaed arbedion effeithlonrwydd o ran sicrhau bod pob swydd ddisgrifiad yn cael ei gyfieithu i'r Gymraeg.. Mae prosesau adnoddau dynol yn eu lle ar gyfer recriwtio rheolwyr i anfon swydd ddisgrifiadau cymeradwy at wasanaeth cyfieithu mewnol yr Ymddiriedolaeth. Cymeradwywyd ein proses ar gyfer sicrhau bod ein holl swydd ddisgrifiadau ar gael yn Gymraeg yn ystod ein cyfarfod blynyddol gyda chynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Chwefror 2024.

| Categori | Nifer y swyddi wedi'u categoreiddio | | Canran y swyddi a hysbysebwyd | |
|---|---|---|---|---|
| | 2023-24 | 2022-23 | 2023-24 | 2022-23 |
| Sgiliau Cymraeg yn hanfodol | 4 | 6 | 1.3% | 1.4% |
| Sgiliau Cymraeg yn ddymunol | 292 | 393 | 98% | 97% |
| Bydd angen dysgu sgiliau Cymraeg pan benodir rhywun i'r swydd | 0 | 0 | 0% | 0% |
| Nid yw sgiliau iaith Gymraeg yn angenrheidiol | 0 | 6 | 0% | 1.4% |

* Mae ffigurau/canrannau oren yn cynrychioli'r cyfnod adrodd 2022/23.

Yn dilyn y gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag gael ei hasesu am yr angen am sgiliau Cymraeg, hysbysebwyd y swyddi Cymraeg hanfodol ganlynol:

- Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) Derbynnydd Galwadau x2 (Band 2)
- Cydlynydd Gwasanaethau Cyfreithiol Gweithio i Wella (Band 4)
- Cyfieithydd Cymraeg (Band 5)

Hwyluswyd cyfweliadau swyddi ar gyfer swyddi gwag yn Gymraeg yn dilyn ceisiadau gan yr ymgeisydd am swydd.

### 8.7 Hyfforddiant (Safon 97)

| Math o Hyfforddiant | Nifer a ofynnodd am fersiwn Gymraeg o'r cwrs | Nifer a fynychodd fersiwn Saesneg y cwrs | Canran a fynychodd y fersiwn Gymraeg |
|---|---|---|---|
| **Gweithdrefnau Cwyno a Disgyblu** | 0 | 298 | 0 |
| **Sefydlu** | 0 | 407 | 0 |
| **Iechyd a Diogelwch** | 0 | 111 | 0 |

Ar gyfer cyrsiau sy'n ymwneud â chwynion a gweithdrefnau disgyblu, roedd y rhain yn cael eu darparu'n fewnol i'r GIG ond nid yn fewnol i WAST. Mae pob 'Diwrnod Croeso WAST' lle mae aelodau newydd o staff yn cael eu cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys elfen o'r Gymraeg (cyfarch yn cael ei ddarparu'n ddwyieithog, fideo ymddygiadau WAST Cymraeg a chyfeiriad at safonau'r Gymraeg a deunyddiau dysgu, gyda rhai ohonynt yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg). Ni ofynnodd unrhyw un i'n cyfnod sefydlu ddigwydd yn Gymraeg.

Ar gyfer ein hyfforddiant Iechyd a Diogelwch, darparwyd cyrsiau Rheoli'n Ddiogel IOSH a'r cyrsiau Arwain yn Ddiogel yn Saesneg gan fod y cyrsiau hyn yn gyrsiau hyfforddi achrededig IOSH, ac nad ydynt ar gael yn Gymraeg gan fod y cynnwys yn cael ei ddarparu'n allanol.

### 8.8 Hyfforddiant i Wella Sgiliau Iaith Gymraeg (Safonau 99 - 101)

Mae'r modiwl ar-lein 'Croeso Cymraeg Gwaith' wedi bod yn allweddol i'r Ymddiriedolaeth wrth gefnogi staff sydd ar ddechrau eu taith i ddysgu Cymraeg. Mae **360** aelod o staff wedi cofrestru ar y modiwl e-ddysgu Cymraeg i ddechreuwyr a hwylusir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda **129** wedi cwblhau'r cwrs.

Fel rhan o'r gwaith i ddatblygu'r Cynllun Gweithlu Strategol rydym wedi ymgysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ynglŷn â datblygu sesiynau hyder yn y Gymraeg ar gyfer staff yr Ymddiriedolaeth a hoffai gynyddu eu hyder i siarad Cymraeg gyda defnyddwyr ein gwasanaethau. Yn 2024/25 bydd cyrsiau magu hyder yn y Gymraeg yn cael eu darparu i 23 aelod o'r gwasanaeth 111.

### 8.9 Hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Safonau 102 – 103)

Mae 'Diwrnodau Croeso' yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac ymgymerodd cyfanswm o **407** aelod o staff â'r hyfforddiant hwn yn ystod y cyfnod adrodd.

Ers cyflwyno'r cyrsiau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gorfodol ar 1 Ebrill 2023, mae **61.13%** o staff yr Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r cwrs. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r hyfforddiant dros y flwyddyn nesaf i gynyddu nifer y staff sy'n cwblhau'r hyfforddiant i 90%.

### 8.10 Hyrwyddo'r Gymraeg

Dathlwyd Diwrnod Shwmae Su'mae ar Hydref 15 i hybu'r Gymraeg gyda'r syniad o ddechrau pob sgwrs gyda chyfarchiad anffurfiol. Hyrwyddwyd ymadroddion Cymraeg i staff ar Siren a Yammer ynghyd â mynediad at gwrs blasu Cymraeg ar-lein rhad ac am ddim sy'n cyflwyno geiriau ac ymadroddion bob dydd i staff y sector Iechyd.

Yn ystod y cyfnod adrodd cafodd y fideos YouTube canlynol eu datblygu a'u hyrwyddo i'n pobl i ddatblygu eu Sgiliau Cymraeg ar gyfer Diwrnod Shwmae Su'mae day, y Nadolig a Dydd Gŵyl Dewi.



Cliciwch yma i wylio




Cliciwch yma i wylio



Cliciwch yma i wylio

Ym mis Mawrth, cynhaliodd WAST ddigwyddiad cyntaf y Rhwydwaith Ansawdd Ambiwlans, 'Ambiwlans Q 24', yn Stadiwm Principality, Caerdydd gyda phobl yn mynychu o Ymddiriedolaethau ambiwlans ledled y DU. Roedd elfen iaith Gymraeg i'r digwyddiad gan gynnwys llwyfan cofrestru dwyieithog awtomataidd, arddangosiadau dwyieithog, a chyfarchion dwyieithog a chyflwyniadau gan staff WAST. Gosodwyd y ddelwedd ganlynol ar fyrddau'r cynrychiolwyr i gyd i hyrwyddo'r iaith i'n gwesteion o bob rhan o'r DU.



## 8.11 Ein Gwasanaeth Cyfieithu

Mae canoli gwasanaeth cyfieithu mewnol yr Ymddiriedolaeth gyda recriwtio cyfieithydd Cymraeg wedi cynyddu gallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'n defnyddwyr gwasanaeth ac i'n pobl a lleihau ein dibyniaeth a'n costau cysylltiedig wrth ddefnyddio darparwyr cyfieithu allanol.

Ers sefydlu gwasanaeth cyfieithu'r Ymddiriedolaeth ym mis Medi 2023, mae dros **325,484** o eiriau wedi'u cyfieithu gan y gwasanaeth, gan gynnwys ystod eang o ddogfennau megis y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, negeseuon cyfryngau cymdeithasol, arwyddion, ffurflenni a chynnwys gwe. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu gwasanaeth prawf ddarllen ac wedi prawf ddarllen dros 70,000 o eiriau o wahanol cyfarwyddiaethau.

Mae'r gwasanaeth cyfieithu wedi cael effaith hynod gadarnhaol ar yr Ymddiriedolaeth, gyda'r gallu i ymdrin â chais am gyfieithiad brys yn fewnol, a chysondeb wrth gyfieithu dogfennau o ran terminoleg. Mae cyfieithu yn ffactor allweddol sy'n galluogi cydymffurfio â llawer o'r safonau ee gohebiaeth, dogfennau, ffurflenni, arwyddion, cyfryngau cymdeithasol a chynnwys gwe.

## 9. Cwynion (Safon 115)

Isod, ceir rhestr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2023/24 ynghyd â chrynodeb o'r camau a gymerwyd. Derbyniwyd tair cwyn:

| Rhif | Cwyn | Ymateb a'r cam gweithredu |
|---|---|---|
| 1 | Cwyn wedi'i dderbyn gan aelod o'r cyhoedd ar 13/02/2024 am honiad bod nifer fawr o erthyglau ar wyddoniadur Iechyd A i Y y wefan GIG 111 Cymru heb eu cyfieithu i'r Gymraeg. | Ymateb wedi'i ddarparu i'r achwynydd yn egluro bod achos busnes arfaethedig i'w ddatblygu ar gyfer adnoddau priodol i sicrhau bod cynnwys clinigol gwefan GIG 111 Cymru yn cael ei ddiweddaru'n ddwyieithog. |
| 2 | Cwyn wedi'i dderbyn gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 16/02/24 ar ran aelod o'r cyhoedd am honiad bod nifer fawr o erthyglau yn wyddoniadur Iechyd A i Y y wefan GIG 111 Cymru heb eu cyfieithu i'r Gymraeg. | Ar ôl cyflwyno ymateb i'r achwynydd cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg ei bod hi wedi tynnu eu cwyn yn ôl ac na fyddai unrhyw gamau pellach yn digwydd. |
| 3 | Yn dilyn cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg gan aelod o'r cyhoedd mewn perthynas â'r bwriad i symud y Ganolfan Gyswllt Clinigol ym Mryn Tirion, Llanfairfechan i Dŷ Elwy, Llanelwy, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth gais am wybodaeth ar 24/11/2023 gan y Comisiynydd ynghylch a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cynnal asesiad effaith ar y Gymraeg ar y symudiad arfaethedig. | Ar ôl cyflwyno ymateb i Gomisiynydd y Gymraeg yn datgan bod gwaith yn mynd rhagddo er mwyn deall yn llawn yr effaith ar y ddarpariaeth iaith, yn ogystal â chefnogi cydweithwyr gydag unrhyw bryderon sydd ganddynt drwy broses newid sefydliadol GIG Cymru, cadarnhaodd y Comisiynydd mewn llythyr dyddiedig 14/12/23 na fyddai'n cynnal ymchwiliad o dan adran 71 o'r Mesur, gan nad oedd y penderfyniad polisi (p'un i adleoli'r ganolfan ai peidio), a allai fod yn ddarostyngedig i safonau llunio polisi 69-71, wedi'i wneud ar ddyddiad y cwynion dan sylw ac roedd yn gynamserol i'r Comisiynydd ystyried a oedd yr Ymddiriedolaeth wedi methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn yn y safonau Llunio Polisi. Dywedodd y Comisiynydd ymhellach, os oedd ganddi reswm i amau, unwaith y byddai penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch adleoli'r ganolfan, nad oedd effeithiau'r penderfyniad ar y Gymraeg wedi'u hystyried, ceidw'r hawl i ystyried bryd hynny a ddylai hi gynnal ymchwiliad i'r mater. |

## 10. Blaenoriaethau ar gyfer 2024-2025

Ar gyfer 2024/25 byddwn yn ceisio cryfhau ein cydymffurfedd o ran y Gymraeg drwy arweinyddiaeth gref, gan alluogi'r Gymraeg i ffynnu. Cyflawnir hyn trwy Gam Gweithredu / Cyflawniad Blwyddyn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig lle byddwn yn ceisio cyflawni'r canlynol:

- Cyflwyno a gweithredu Polisi Iaith Gymraeg newydd ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Cymeradwyo polisi iaith Gymraeg a chynllun cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

- Datblygu gwaelodlin safonau'r Gymraeg ar gyfer cydymffurfio a fydd yn cael ei hyrwyddo ar draws yr Ymddiriedolaeth a dathlu enghreifftiau o arfer da.

- Byddwn yn sefydlu Grŵp Cynghori'r Gymraeg effeithiol i gefnogi'r gwaith o gyflawni Fframwaith Iaith Gymraeg yr Ymddiriedolaeth.

- Byddwn yn datblygu Pecyn Cymorth y Gymraeg ar gyfer uwch arweinwyr ac ar gyfer datblygiad y Bwrdd i godi ymwybyddiaeth o Safonau'r Gymraeg, Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau ac ar gyfer datblygu sgiliau cwrteisi yn y Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad a'r Bwrdd yn goruchwylio'r targedau i'w gyflawni yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig bob deufis.

Fel rhan o'n hymrwymiad i'r Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau i sicrhau bod ein defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau yn eu dewis iaith, mae ffrwd waith Gymraeg penodol wedi'i datblygu fel rhan o Gynllun Gweithlu Strategol cyffredinol WAST. Bydd gwaith yn mynd rhagddo yn 2024-25 i nodi lefelau sgiliau Cymraeg staff yr Ymddiriedolaeth a nodi'r bylchau sgiliau hynny wrth gyflwyno'r cynnig rhagweithiol i ddefnyddwyr ein gwasanaethau.

Bydd ein Gwasanaeth GIG 111 Cymru yn ceisio gwella ei allu i ateb galwadau Cymraeg drwy weithio mewn partneriaeth â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu sesiynau magu hyder yn y Gymraeg ar gyfer staff 111 sydd â gwybodaeth flaenorol o'r Gymraeg ond a hoffai gwella eu sgiliau Cymraeg wrth ateb galwadau Cymraeg.

## Gwybodaeth Bellach

I gael rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â:

Melfyn Hughes
Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Tŷ Elwy
Ffordd Richard Davies
Llanelwy
Sir Ddinbych
LL17 0LJ

E-bost: Melfyn.hughes@wales.nhs.uk